# 5.0 GWELEDIGAETH AR GYFER AHNE LLŶN

## 5.1 Cyflwyniad

5.1.1 Mae'r rhan yma o'r Cynllun yn symud ymlaen i ystyried dyfodol yr ardal a'r hyn y gall y Cynllun ei wneud er lles yr AHNE. Nod sylfaenol y Cynllun Rheoli yw arwain gweithredu ar faterion craidd yr AHNE – sef gwarchod, cynnal a gwella harddwch naturiol a rhinweddau arbennig yr ardal. Er mwyn gwireddu hyn bydd raid anelu i ddylanwadau ar weithgareddau sydd yn niweidiol neu'n llesol i'r rhinweddau hynny.

5.1.2 Nod tymor hir ar gyfer yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol a geir yn y Weledigaeth. Mae yn ddatganiad penodol ac felly rhaid edrych ymhellach i'r dyfodol na 2019 pryd y bydd yn Cynllun Rheoli yn cael ei adolygu nesaf. Roedd y Weledigaeth wreiddiol yn cyfeirio at 2020 ond yn ystod yr adolygiad diweddaraf penderfynwyd fod 2040 yn garreg filltir addas ar gyfer y Weledigaeth i'r Cynllun diwygiedig.

5.1.3 Wrth gwrs mae angen i'r Weledigaeth roi sylw i rinweddau arbennig yr AHNE a'r cyflwr yr anelir ato yn y dyfodol. Materion eraill y rhoddwyd sylw iddynt yw:

- datblygiadau tebygol yn y dyfodol a thueddiadau lleol a byd eang.
- y rhyngweithio rhwng ansawdd amgylcheddol a chefnogi economïau a chymunedau lleol - sydd wrth wraidd datblygiad cynaliadwy
- newid hinsawdd a'r ymatebion i hynny
- yr ystod eang o wasanaethau naturiol a manteision mae amgylchedd arbennig yr AHNE yn ei gynnig a'i ddarparu.

## 5.2 Egwyddorion Sylfaenol

5.2.1 Cyn gosod y Weledigaeth ar gyfer yr ardal sefydlwyd cyfres o egwyddorion i fod yn sail ar gyfer y Cynllun Rheoli. Diffiniwyd yr egwyddorion hyn yn dilyn ystyried y rhesymau sylfaenol dros ddynodi AHNE, lles tymor hir yr ardal, cynaliadwyedd a materion lleol a byd eang perthnasol.

5.2.2 Yn ystod y broses o adolygu'r Cynllun Rheoli fe ailedrychwyd ar yr egwyddorion a chael fod y pedair egwyddor yn y Cynllun blaenorol (2009-14) yn parhau yn berthnasol gyda addasiadau bychan. Gwelir yr egwyddorion yn dilyn:

| **EGWYDDOR 1** |
| --- |
| **Gwarchod, cynnal a lle bo'n briodol adfer y nodweddion sy'n gwneud ardal Penrhyn Llŷn yn arbennig ac unigryw.** |

5.2.3 Cyfuniad o nodweddion ac asedau sydd yn gwneud Llŷn yn ardal unigryw ac yn ffurfio rhan bwysig o'i chymeriad. Diffiniwyd y nodweddion neu'r rhinweddau hyn yn y rhannau blaenorol o'r Cynllun ac mae'n cynnwys y tirlun, bywyd gwyllt, amgylchedd hanesyddol, cymunedau a'r iaith. Prif ffocws y Cynllun Rheoli fydd anelu i warchod, cynnal a lle bo'n bosibl i wella'r nodweddion neu'r rhinweddau hyn.

5.2.4 Mae’n bwysig sicrhau fod datblygiadau newydd a ganiateir yn gweddu i’r ardal ac felly bydd materion megis maint, graddfa, dyluniad a deunyddiau yn bwysig. Yn aml gellir lleihau effaith ddatblygiadau newydd y tirlun a’r amgylchedd trwy fesurau megis lleoliad addas, dylunio sy’n gweddu a thirlunio.

5.2.5 Mae’r drefn gynllunio yn chwarae rhan bwysig yn hyn trwy asesu ceisiadau ac atal datblygiadau fyddai yn cael effaith annerbyniol ar yr AHNE neu osod amodau i wneud datblygiadau yn fwy derbyniol.

| **EGWYDDOR 2** |
|---|
| **Cymryd camau i hyrwyddo a hybu datblygiad cynaliadwy a pharatoi at gyfer newid hinsawdd yn y dyfodol.** |

5.2.6 Mae gan y Cynllun Rheoli a gweithgareddau’r Gwasanaeth AHNE ran bwysig i’w chwarae o ran codi ymwybyddiaeth a gweithredu ar faterion amgylcheddol lleol a byd eang, datblygiad cynaliadwy ac oblygiadau newid hinsawdd.

5.2.7 Gall codi ymwybyddiaeth a gweithredu yn lleol gyfrannu at weithredu cenedlaethol i leihau llygredd, arbed ynni, lleihau teithio a cheisio sicrhau fod datblygu yn gynaliadwy yn y tymor hir. Hefyd mae rhaid rhoi sylw i effeithiau posibl newid hinsawdd a lefel y môr y codi yn arbennig mewn ardal arfordirol fel Penrhyn Llŷn.

| **EGWYDDOR 3** |
|---|
| **Adnabod, hyrwyddo ac ennyn gwerthfawrogiad o’r gwasanaethau a manteision amgylcheddol a ddarperir yn yr AHNE.** |

5.2.8 Dynodwyd Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol ar sail eu harddwch naturiol ac am eu bod yn ardaloedd arbennig o gefn gwlad ac arfordir. Ond hefyd mae gan yr ardaloedd hyn rôl bwysig i’w chwarae mewn darparu cyfleon ar gyfer pob math o weithgaredd i ymlacio a hamddena i bobol leol ac ymwelwyr. Erbyn hyn mae mwy a mwy o ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cyfleon fel hyn a’r budd y gall yr ardaloedd hyn ei gynnig o ran iechyd a lles cyffredinol y boblogaeth.

5.2.9 Gall y Cynllun Rheoli, a’r gweithredoedd fydd yn deillio ohono, wneud llawer i godi ymwybyddiaeth pobol leol o’r cyfleon sydd ar drothwy eu drws. Hefyd mae cyfleon i gyfleu negeseuon tebyg i ymwelwyr o bob math sy’n dod i Lŷn. Mae’r Cynllun hefyd codi ymwybyddiaeth arweinwyr meysydd iechyd a lles yn ogystal â gwleidyddion am yr hyn y gall y tirluniau gwarchodedig ei gynnig.

| **EGWYDDOR 4** |
|---|
| **Cefnogi cymunedau a’r bobol sy’n byw a gweithio yn Llŷn ac ennyn diddordeb yn yr AHNE ac yn nyfodol yr ardal.** |

5.2.10 Mae’n bwysig sylweddoli mai tirlun byw yw AHNE Llŷn. Y bobol leol a’r cymunedau sy’n rhoi lliw a bywyd i’r ardal ac yn cynnal a chadw llawer o’r rhinweddau sy’n gwneud yr ardal yn arbennig ac unigryw. Bydd yn bwysig cefnogi'r bobol hyn a

hefyd ceisio sicrhau eu bod yn cymryd diddordeb ac yn chwarae rhan fwy cadarnhaol yn rheolaeth yr AHNE a dyfodol yr ardal.

## 5.3 Dyfodol Llŷn

5.3.1 Lluniwyd y Weledigaeth ar sail yr wybodaeth a gasglwyd ac a gyflwynwyd yn y rhannau blaenorol y Cynllun. Mae'r rhannau hyn yn diffinio beth sydd yn arbennig am Lŷn, beth yw cyflwr y rhinweddau hyn a beth yw'r gweithredoedd sy'n rhoi pwysedd ar y rhinweddau neu sy'n fuddiol i'r rhinweddau. Yn ychwanegol mae'r Weledigaeth yn ystyried yr egwyddorion sylfaenol y cyfeiriwyd atynt yn dechrau'r rhan yma.

5.3.2 **Dyma'r Weledigaeth felly, ar gyfer Llŷn yn 2040:**

**ARDAL O DIRLUN AC ARFORDIR HARDD YN GYFOETHOG O FYWYD GWYLLT SY'N DARPAU LLU O WASANAETHAU NATURIOL. NODWEDDION HANESYDDOL YN CAEL COFNODI A'U GWERTHFAWROGI A CHYMUNEDAU LLEOL YN CYNNAL YR IAITH A'R DIWYLLIANT CYMREIG.**

5.3.3 Er mwyn bod yn fwy penodol ynglŷn â nodweddion penodol yr ardal fe luniwyd gweledigaethau unigol sydd yn fwy manwl. Mae'r gweledigaethau hyn yn gosod darlun o gyflwr delfrydol y nodwedd dan sylw yn y dyfodol.

## 5.4 Y Tirlun, Arfordir a Morlun

5.4.1 Harddwch naturiol y tirlun, yr arfordir a'r golygfeydd cysylltiedig oedd prif sail dynodi AHNE Llŷn yn 1957 a'r Arfordir Treftadaeth yn 1974. Mae'r Weledigaeth yn nodi'r bwriad o gynnal a chadw'r rhinweddau naturiol arbennig yma a rhan bwysig o hynny yw bod unrhyw ddatblygiadau newydd sydd yn cael eu caniatáu yn y dyfodol o safon dda ac yn gweddu i amgylchedd yr ardal.

5.4.2 Y weledigaeth a osodwyd ar gyfer y dyfodol yw:

**Penrhyn o wastatir a bryniau amlwg ac arfordir hardd. Golygfeydd naturiol gwych a pherthynas agos gyda'r môr. Tai, ffyrdd a datblygiadau newydd eraill yn gweddu yn dda i amgylchedd naturiol ag hanesyddol yr AHNE.**

## 5.5 Tawelwch a Llygredd Isel

5.5.1 Ar hyn o bryd mae Llŷn yn ardal lle mae llygredd amgylcheddol yn isel ac mae'r Weledigaeth isod yn rhagweld y bydd hynny yn parhau ac efallai bydd rhai gwelliannau yn y dyfodol. Y gobaith hefyd yw bydd y lefelau isel o weithgareddau, sŵn a golau yn Llŷn yn cael ei gynnal ac felly fod cymeriad llonydd a thawel yr ardal yn parhau.

5.5.2 Gweler y weledigaeth isod:

**Lefelau isel o lygredd, sŵn a golau nos ac awyrgylch o dawelwch, unigedd a hedd.**

## 5.6 Cynefinoedd a Bywyd Gwyllt

5.6.1 Yn anffodus mae llawer o gynefinoedd naturiol Llŷn wedi crebachu yn sylweddol yn ystod ail hanner y ganrif ddiwethaf oherwydd prosesau amaethyddol mwy effeithiol ac erbyn hyn mae rhai yn adnodd prin. Mae angen gwarchod ac adfer rhai o'r cynefinoedd hyn a gwella rheolaeth ohonynt er gwireddu'r weledigaeth.

5.6.2 Mae cymeriad gwledig ac arfordirol yr ardal, a hefyd ei natur di-lygredd, yn golygu ei bod yn hafan i gyfoeth o fywyd gwyllt. Y gobaith yw y bydd Llŷn yn parhau i fod yn gynefin ar gyfer amrywiaeth fawr o anifeiliaid, ymlusgiaid, pryfetach, adar a chreaduriaid y môr yn cynnwys rhai sydd bellach yn brin trwy wledydd Ewrop.

5.6.3 Y weledigaeth yw:

**Rhostiroedd a chynefinoedd allweddol eraill Llŷn yn cael eu gwarchod a'u rheoli'n effeithiol a'r cyfoeth o fywyd gwyllt yn cael ei warchod a'i gynnal.**

## 5.7 Yr Amgylchedd Hanesyddol

5.7.1 Mae ardal Llŷn ac Ynys Enlli wedi ei chynnwys ar y Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru fel cydnabyddiaeth o gyfoeth yr amgylchedd hanesyddol yn yr ardal.

5.7.2 Fel y gwelwyd yn rhan flaenorol y Cynllun mae amgylchedd hanesyddol yr ardal yn cynnwys amrywiaeth helaeth o adnoddau. Mae'r adnoddau hyn yn cynnwys olion archeoleg a hanesyddol cynnar fel meini hirion a cheyrydd, olion gweithgaredd diwydiannol fel hen chwareli, gwaith mwyn, iardiau glo ac odynnau calch. Hefyd mae adeiladau hanesyddol a rhannau traddodiadol o bentrefi hefyd yn elfen bwysig o'r dreftadaeth adeiledig. Dengys arolygon fod adeiladau hanesyddol mewn perygl oherwydd diffyg cynnal a chadw a datblygiadau anaddas yn amharu ar eu cymeriad a'u hedrychiad ond ar y cyfan mae rhannau traddodiadol o bentrefi wedi cynnal eu cymeriad gwreiddiol yn dda.

5.7.3 Y gobaith hefyd yw y bydd mwy o wybodaeth am yr amgylchedd hanesyddol ar gael a mwy o gyfleon i ymweld â safleoedd ac adeiladau.

5.7.4 Y weledigaeth a osodwyd ar gyfer y dyfodol yw:

**Nodweddion hanesyddol fel meini hirion, cloddiau, ffynhonnau, eglwysi a bythynnod yn cael eu gwarchod a'u cynnal yn ddigonol. Cyfleon da ar gyfer ymweld a dysgu am olion, safleoedd ac adeiladu hanesyddol pwysig Llŷn.**

## 5.8 Pobol a Chymuned

5.8.1 Mae'r bobl sy'n byw a gweithio yn yr ardal yn cyfrannu at ei chymeriad a'i hunaniaeth ac yn cynnal traddodiadau, diwylliant a'r iaith. Drwy gael amodau byw teg a chyfleon ar gyfer mwynhau a gwneud bywoliaeth yn yr ardal mae'r weledigaeth yn rhagweld y bydd cymunedau yn sefydlog ac yn ffynnu. Yn ei dro

bydd trigolion lleol a’r cymunedau yn fodd i gynnal un arall o nodweddion arbennig Llŷn sef yr iaith a’r diwylliant.

5.8.2 Gweler y weledigaeth isod:

**Cymunedau sefydlog yn mwynhau safon byw da a phobol a phlant yn ymwybodol o hanes a thraddodiadau’r ardal ac yn cynnal y diwylliant a’r iaith Gymraeg.**

## 5.9 Yr Iaith a’r Diwylliant Cymreig

5.9.1 Mae diwylliant lleol unigryw, gyda blas Cymreig arbennig arno, yn perthyn i Lŷn ac mae’r iaith Gymraeg yn rhan greiddiol ohono. Mae’r iaith a’r diwylliant dan gryn fygythiad oherwydd allfudiad o’r gymdeithas gynhenid a mewnfudiad o bobl sydd yn aml ddim yn ymwybodol o hanes a diwylliant yr ardal. Drwy weithredoedd, prosiectau ac ymgyrchoedd yn y blynyddoedd i ddod y gobaith yw y bydd y Gymraeg yn parhau i fod yn brif iaith yr ardal yn 2040.

5.9.2 Gobaith arall yw y bydd elfennau ieithyddol a diwylliannol lleol yn cael eu cofnodi a’u hyrwyddo yn ystod y cyfnod dan sylw, drwy wahanol brosiectau gan gymunedau, awdurdodau cyhoeddus a mentrau eraill.

5.9.3 Y weledigaeth yw:

**Y Gymraeg yn brif iaith Llŷn, enwau Cymraeg yn cael eu harddel a’r diwylliant Cymreig wedi ei gofnodi’n dda ac yn ffynnu.**

## 5.10 Cynnyrch Lleol a Busnesau Gwledig

5.10.1 Dros y canrifoedd mae diwydiannau primaidd o amaethu, chwarelydda a physgota wedi cael dylanwad trwm ar gymeriad yr ardal ac wedi bod yn sylfaen i’r economi leol. Credir fod ganddynt gyfraniad parhaol i’w wneud i economi Llŷn ond gall mabwysiadu dulliau mwy cynaliadwy o weithredu fod o fudd sylweddol i rinweddau arbennig yr ardal. Hefyd yn Llŷn mae busnesau bychain a hunangyflogaeth yn bwysig o’r economi wledig gan gyfrannu at yr economi a chymeriad yr ardal.

5.10.2 Mae’r diwydiant twristiaeth a hamdden yn dod a budd economaidd sylweddol ac yn gymorth i gynnal gwasanaethau lleol. Ond mae’n amlwg fod sgil effeithiau pur ddifrifol i rai o rinweddau arbennig yr ardal ynghlwm â’r diwydiant. Y gobaith ar gyfer y dyfodol yw y gellir taro cydbwysedd rhwng elwa o’r diwydiant, lleihau ei ardrawiad a chynnal safon yr amgylchedd. Mae datblygu’r diwydiant ar sail gynaliadwy yn cynnig budd sylweddol i’r economi lleol ac o ran effeithiau ar y rhinweddau arbennig.

5.10.3 Y weledigaeth yw:

**Ffermio, pysgota a chwarelydda yn parhau i ddarparu gwaith a chynnyrch lleol safonol. Twristiaeth a diwydiannau bychain gwledig eraill yn cyfrannu tuag at yr economi leol heb amharu ar amgylchedd arbennig yr ardal.**

## 5.11 Hawliau Tramwy a Mynediad

5.11.1 Mae hawliau tramwy a hawl mynediad yn adnodd pwysig i ardal fel Llŷn. Heb yr hawliau hyn ni fyddai modd cael mynediad at rannau helaeth o'r ardal a'r arfordir. At y dyfodol y gobaith yw y bydd yr hawliau yma yn cael eu gwarchod a'r llwybrau yn cael eu cynnal, er fe sylweddolir y bydd raid blaenoriaethu ar sail adnoddau. Dangosodd gwaith ymchwil fod cyfleon i wella'r ddarpariaeth ar gyfer yr anabl yn Llŷn ac erbyn 2040 gobeithir y bydd gwelliannau wedi eu cyflwyno mewn rhai mannau lle bo hynny'n ymarferol bosibl.

5.11.2 Nod arall fydd sicrhau fod y cynnydd mewn defnyddio hawliau tramwy, beicio a defnyddio cludiant cyhoeddus yn y dyfodol - ar sail lles ac iechyd cyhoeddus, cynyddu gwerthfawrogiad a mwynhad o'r AHNE ac er budd yr amgylchedd. Felly bydd codi ymwybyddiaeth yn bwysig, yn ogystal â rheolaeth i leihau gwrthdaro a datblygu gwell perthynas rhwng perchnogion, rheolwyr a gwahanol grwpiau o ddefnyddwyr.

5.11.3 Y weledigaeth ar gyfer y dyfodol yw:

**Hawliau tramwy a thir gyda hawl mynediad yn cael eu mwynhau yn ddi-rwystr a cyfleon mynediad ar gyfer yr anabl wedi cynyddu. Cerdded, beicio, marchogaeth a gweithgareddau hamdden dŵr di-fodur yn weithgareddau poblogaidd.**